Bridgend County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

## CYD-BWYLLGOR AMLOSGFA LLANGRALLO

### ARCHWILIO CYFRIFON Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2019

Hysbysir drwy hyn, yn unolag adran 30 a 31 or Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 ac Adran 12 Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014, y bydd:

1. Unrhyw berson sydd â diddordeb, rhwng 03 Mehefin 2019 a 28 Mehefin 2019, gan gynnwys y ddau ddiwrnod yma, rhwng 9:00 a.m. ac 1:00 p.m. a rhwng 2:15 p.m. a 4:00 p.m. o ddydd Llun i ddydd Gwener, drwy gais i'r Adran Gyllid, Raven's Court, Lôn y Bragdy, Pen-y-bont ar Ogwr, yn gallu archwilio a gwneud copïau o'r cyfrifon uchod am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019, a'r holl lyfrau, gweithredoedd, contractau, biliau, talebau a derbynebau cysylltiedig.

2. Ar 01 Gorffennaf 2019 neu wedi hynny hyd nes y bydd yr archwiliad wedi ei gwblhau, ar gais unrhyw Etholwr ar gyfer yr ardal y mae'r cyfrifon 2018-19 yn berthnasol iddi, bydd Mr Derwyn Owen yn rhoi cyfle i'r Etholwr neu ei gynrychiolydd ei holi ef ynglŷn â'r cyfrifon a chaiff unrhyw Etholwr o'r fath neu ei gynrychiolydd ddod gerbron yr Archwilydd a gwrthwynebu unrhyw rai o'r cyfrifon. Ni ellir mynegi unrhyw wrthwynebiad oni bai bod yr Archwilydd wedi derbyn hysbysiad ysgrifenedig ymlaen llaw am y gwrthwynebiad arfaethedig a'r sail ar yr hon y mae i gael ei wneud. Rhaid anfon yr hysbysiad ysgrifenedig hwn at Mr Derwyn Owen, yn 24 Heol yr Eglwys Gadeiriol, Caerdydd, CF11 9LJ a rhaid anfon copi ohono i'r Cyngor yn y cyfeiriad isod.

Gill Lewis CPFA
Pennaeth Cyllid a Thrysorydd Dros Dro
Raven's Court
Lôn y Bragdy
Pen-y-bont ar Ogwr
CF31 4AP

Dyddiedig 17 Mai 2019